Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cynghorydd: Kenneth Pritchard Hughes
Grwp: Annibynnol **Ward: Talybolion**

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac yn gyfrifol am Addysg.

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	**[1]Ffigyrau Presenoldeb**
Cyngor	9 (100%)
Pwyllgor Gwaith	14 (100%)
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	12 (92%)
Pwyllgor Trwyddedu	1 (100%)
Panel Rhiantu Corfforaethol	4 (100%)
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 cyfarfod (75%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

Rwyf yn aelod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:		
Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon		
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle Wylfa		
Bwrdd Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW)		
Pwyllgor Rheoli CYNNAL		
Cydbwyllgor Addysg Cymru		
Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn		
Cymdeithas Amaethyddol Môn		

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Cylch y Garn ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd o'r 7 Cyngor Cymuned arall yn ward Talybolion sef Llanfaethlu, Llanddeusant, Llanfachraeth, Llanerchymedd, Tref Alaw, Llanfairynghornwy a Llanfechell fel sylwebydd.

Yn ystod 2016/17 bûm yn parhau i weithredu fel Cadeirydd Ysgol Uwchradd Bodedern Rwyf hefyd yn Aelod o gorff Llywodraethwyr Ysgol Cylch y Garn ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd o gyrff llywodraethu ysgolion Llanfachraeth a Llanfaethlu fel sylwebydd.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn ystod y flwyddyn yn ogystal cefais y cyfle i barhau â'r diddordeb sydd gennym mewn gwaith ieuenctid drwy fynychu rhai clybiau ieuenctid yn achlysurol yn ward Talybolion. Hefyd wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor codi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol 2017 dros ardal Llanfaethlu Llanfachraeth a Llanrhuddlad.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Gwybodaeth Comisiwn Pobl Hŷn	11/05/2016
Sesiynau Briffio Aelodau (20 allan o 23 = 87%)	Ebrill 2016 – Mawrth 2017

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi bod yn gwasanaethu ar bwyllgorau rheoli neuaddau pentref yn Llanfaethlu, Llanfachraeth a Llanfairynghornwy. Yn Llanfairynghornwy yn ogystal bûm yn rhan o bwyllgor yn trefnu diwrnod chwaraeon yn yr ardal

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=38&LLL=1

Y Cynghorydd Kenneth Pritchard Hughes	**Ebrill 2017**